EUR (2) 03-03 (p1) w

# Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 13 Tachwedd 2003 |
| Amser: | 11.00 |
| Lleoliad: | Gwesty Dorint, Boulevard Charlemagne, Brwsel |
| Teitl: | Adroddiad y Gweinidog |

### Pwrpas

1. Darparu diweddariad ar nifer o faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

### Argymhelliad

2. Bod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

### Cefndir

3. Cyfarfu'r Pwyllgor ddiwethaf ar 9 Hydref 2003. Mae'r papur hwn yn rhoi'r manylion diweddaraf ers hynny.

### Gweithgareddau Rhyngwladol y Prif Weinidog.

- 16 i 17 Hydref. Rhufain. Cyfarfod Gweinidogion ar swyddogaeth y rhanbarthau o fewn yr Undeb Ewropeaidd.
- 25 Hydref hyd 2 Tachwedd. Awstralia. Masnach Ryngwladol Cymru. Digwyddiad Hyrwyddo Cymru.
- Gellir canfod rhestr o ddigwyddiadau yn **Atodiad 1**.

### Prif Faterion

4. Ar 16/17 Hydref - Cyfarfod Anffurfiol rhwng Gweinidogion y Cyngor Ewropeaidd. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn Rhufain i drafod swyddogaeth y rhanbarthau o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Cafodd y cyfarfod ei drefnu gan Lywodraeth yr Eidal fel Llywydd yr UE a bydd yn bwydo i mewn i'r Gynhadledd Ryng Lywodraethol gyfredol. Yng ngoleuni ein diddordeb arbennig yn y mater hwn gofynnais am gael bod yn rhan o ddirprwyaeth Gweinidogion y DU a chefais fynychu'r cyfarfod yng nghwmni Bill Rammell AS, Gweinidog yn y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad. Rwyf wedi rhoi datganiad yn ymwneud â'm presenoldeb yn y cyfarfod hwn ar dudalen wê y Cabinet ar 22 Hydref, ac mae copi wedi ei atodi –i gyfeirio'n hwylus ato – (**atodiad 3),** ynghyd â chopi o'r datganiad terfynnol gan y Gweinidogion (**atodiad 4**).

5. Cyngor Ewropeaidd, Brwsel, 16/17 Hydref. Cyn y cyfarfod cafwyd datganiad gan Lywydd Senedd Ewrop, Mr Pat Cox, a dilynwyd hyn gan gyfnewid barn ar brif eitemau'r agenda. Ymysg y materion a drafodwyd gan arweinwyr Llywodraethau Ewrop yr oedd cynnydd a wnaed yn y Gynhadledd Ryng-Lywodraethol, Menter Twf Ewrop, amddiffyn yn Ewrop, cynnydd trafodaethau heddwch y Dwyrain Canol a'r sefyllfa yn Irac, a nifer o faterion rhyngwladol eraill..

6. 25 Hydref hyd 2 Tachwedd, Digwyddiad Hyrwyddo Cymru , Awstralia. Roedd hwn yn gyfle i godi proffil Cymru trwy fanteisio ar y cyfleoedd busnes a'r cyhoeddusrwydd oedd ar gael yn Awstralia fel y wlad oedd yn croesawu Cwpan Rygbi'r Byd . Roedd y gweithgareddau yn cynnwys rhaglen ym Melbourne yn ymwneud â busnes, rhaglen i'r Gweinidogion yn Canberra, cinio gyda Chyngor Busnes Cymru, llywyddu mewn derbyniad gan Fwrdd Croeso Cymru a mynychu cyfarfod Busnes Gorllewin Sydney ar ran Menter Masnach Cymru. Adnewyddwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru a De Cymru Newydd.

7. Ymweliad Barnier. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, rwyf wedi ysgrifennu at Christine Chapman AC ynglyn â'i sylw bod ymdriniaeth y wasg ag ymweliad y Comisiynydd Barnier braidd yn negyddol. Mae fy ymateb i'w weld yn **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn.

Rhodri Morgan AC

Prif Weinidog